

Blwydd, blynedd a diwrnod

- Mae blwydd, blynedd a diwrnod* yn treiglo'n drwynol ar ôl:

pum saith wyth naw

e.e. pum mlynedd naw niwrnod wyth mlwydd oed

*Erbyn heddiw, nid ydym yn treiglo diwrnod yn drwynol fel arfer.

- Mae deg, deuddeg a pymtheg yn troi'n deng, deuddeng a pymtheng o flaen 'm',

e.e. deng metr deuddeng mistr pymtheng milltir

Mae tuedd gynyddol i ddefnyddio deg yn hytrach na deng,

e.e. deg metr

- Mae blwydd, blynedd a diwrnod* yn treiglo'n drwynol ar ôl:

deng deuddeng pymtheng

ac maen nhw'n treiglo'n drwynol ar ôl:

deunaw ugain deugain

trigain hanner can can

e.e. deng mlynedd deugain mlynedd can mlwydd oed

*Erbyn heddiw, **nid** ydym yn treiglo diwrnod yn drwynol fel arfer.

- Mae blwydd a blynedd yn treiglo'n drwynol ar ôl un, pan fo un yn rhan o rif cyfansawdd.

e.e. un mlynedd ar hugain
un mlwydd ar bymtheg

Sylwch!

Chwe blwydd a chwe blynedd a welir mewn rhyddiaith ffurfiol ond mae chwe mlwydd / chwe mlynedd hefyd yn gyffredin iawn mewn Cymraeg ffurfiol ac anffurfiol.

Blynedd a Blwydd

un	<i>treigladd meddal</i>	un flwyddyn, un flwydd
dwy	<i>treigladd meddal</i>	dwy flynedd, dwy flwydd
tair	<i>dim treigladd</i>	tair blynedd, tair blwydd
pedair	<i>dim treigladd</i>	pedair blynedd, pedair blwydd
pump	<i>treigladd trwynol</i>	pum mlynedd, pum mlwydd
chwech	<i>dim treigladd</i>	chwe blynedd, chwe blwydd
saith	<i>treigladd trwynol</i>	saith mlynedd, saith mlwydd
wyth		wyth mlynedd, wyth mlwydd
naw		naw mlynedd, naw mlwydd
deg		deng mlynedd, deng mlwydd
deuddeg		deuddeng mlynedd, deuddeng mlwydd
pymtheg		pymtheng mlynedd, pymtheng mlwydd
deunaw		deunaw mlynedd, deunaw mlwydd
ugain		ugain mlwydd, ugain mlynedd
cant		can mlynedd, can mlwydd